

Papur Gwybodaeth Arbenigol

Beth mae Araith y Frenhines yn ei olygu i Gymdeithasau Tai Cymru?

1. Cyflwyniad

Ar 27 Mai amlinellodd y Frenhines raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth Unedig am y flwyddyn i ddod. Mae'r pecyn 26-bil wedi'i seilio ar ymrwymiad clir i gefnogi pobl sy'n gweithio ac uchelgais wleidyddol am gyflogaeth lawn ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae pwerau wedi'u datganoli i Gymru am feysydd megis addysg, iechyd a thai. Fodd bynnag, os cânt eu pasio, bydd y Biliau sy'n ymwneud â diwygio lles, ynni, diogelwch cenedlaethol, amddiffyn a mewnfudo hefyd yn weithredol yng Nghymru.

Mae'r papur gwybodaeth hwn yn ymchwilio prif effeithiau'r cynigion ar gyfer cymdeithasau tai Cymru a'u tenantiaid a'u preswylwyr.

2. Biliau Allweddol

Bil Cyflogaeth Lawn a Budd-daliadau Lles

Pedair elfen y bil yw:

- Gostwng cap budd-daliadau aelwyd o £26,000 i £23,000.
- Rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gwaith am ddwy flynedd, yn cynnwys budd-dal diweithdra, budd-dal plant a chredydau treth, o 2016-17.
- Dileu'r hawl awtomatig i gymorth tai i bobl ifanc 18 i 21 oed.
- Creu dyletswyddau i roi adroddiad ar gynnydd polisiau'r Llywodraeth megis y cynllun Teuluoedd Cythryblus, cyflogaeth lawn a phrentisiaethau.

Bydd **gostwng y cap budd-daliadau** yn golygu y byddai cap llawer is na chanolrif enillion ar gyfanswm incwm aelwydydd di-waith o fudd-daliadau. O gofio y caiff incwm aelwydydd mewn gwaith incwm isel ei chwyddo tu hwnt i £26,000 gan gredydau treth, bydd y bwch incwm rhwng aelwydydd mewn gwaith, a'r rhai heb fod mewn gwaith, yn cynyddu.

Er awgrymiadau y bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar denantiaid yn Llundain a de ddwyrain Lloegr, gwyddom y bydd y cap hefyd yn cael effaith niweidiol ar allu tenantiaid sy'n byw yng Nghymru i dalu eu rhent, gan effeithio ar 300 aelwyd yng Nghaerdydd.

Parhau i rewi budd-daliadau oedran gwaith am ddwy flynedd

Mae tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol a bydd rhewi cynnydd cyflog statudol i deuluoedd mewn gwaith sy'n magu plant yn cynyddu lefelau tlodi. Er y gwyddom na chaiff budd-dal tai ei ddiogelu rhag y rhewi/toriad, ni ddywedwyd sut y cyflawnir hyn a beth fydd yr oblygiadau, os bydd rhai, i lefelau rhent cymdeithasau tai.

Dileu hawl awtomatig pobl ifanc 18-21 oed

Mae 17,718 o bobl ifanc dan 25 oed yn hawlio budd-dal tai yng Nghymru (yn cynnwys y sector rhent preifat). Ohonynt mae:

- 9,204 yn y sector tai cymdeithasol
- 6,083 yn denantiaid ein haelodau
- 3,324 â chyfrifoldeb rhiant/teuluoedd
- 1,127 yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (felly'n rhy wael neu anabl i weithio)
- 199 yn gweithio (cyflog isel neu brentisiaethau).

Mae'r mesur yn debygol o gael effaith niweidiol iawn gyda chau cynlluniau a chynnydd mawr mewn digartrefedd ymysg y grŵp yma.

Mae CHC yn pryderu'n neilltuol am y Bil Cyflogaeth Lawn a Budd-daliadau Lles gan fod diwygiadau lles eisoes yn effeithio'n waeth ar Gymru na mannau eraill. Dengys yr ystadegau islaw fod y 'dreth ystafelloedd gwely' yn effeithio mwy ar denantiaid tai cymdeithasol Cymru sy'n hawlio budd-dal tai nag ar denantiaid tai cymdeithasol yn rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig.

Rhanbarth y DU	% hawlwyd budd-dal tai y mae'r 'dreth ystafelloedd gwely' yn effeithio arnynt
Yr Alban	15.3
Lloegr	19
Cymru	20.4

Yn 2013 cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Materion Cymreig hefyd dystiolaeth yn dangos sut y bu'r 'dreth ystafelloedd gwely' yn 'fethiant polisi' yng Nghymoedd y De lle, yn ymarferol, byddai tenant tai cymdeithasol yn symud i gartref llai yn y sector rhent preifat yn costio'n ddrutach i'r trethdalwyr.

Yn chwe mis cyntaf y 'dreth ystafelloedd gwely', cynyddodd tenantiaethau cymdeithasau tai gydag ôl-ddyledion o £12.406m i £15.643m. Ers cyflwyno Credyd Cynhwysol, cynyddodd ôl-ddyledion tenantiaethau gan 0.6% a'r rhai mewn ôl-ddyled o

13 wythnos neu fwy (ôl-ddyledion difrifol) i 2.2%, o 1.6% yn flaenorol. Dywedwyd hefyd fod cynnydd mewn straen ac iechyd meddwl gwael ymysg tenantiaid.

Gwyddom hefyd mai dim ond dechrau brathu mae effeithiau'r toriadau £21bn ac y bydd £12bn o doriadau ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond darn bach o hynny yw'r cynigion yn y Bil Cyflogaeth Lawn a Budd-daliadau Lles - tua £1.5bn.

Mae CHC yn gweithio ar hyn o bryd gyda Ffederasiynau Tai eraill y Deyrnas Unedig i ddatblygu polisi ac ymarfer sy'n lliniaru effeithiau gwaethaf y toriadau.

Bil Mewnfudo

Bydd y Bil Mewnfudo yn creu asiantaeth orfodaeth newydd i fynd i'r afael â'r achosion gwaethaf o ecsbloetiad yn ogystal â chreu trosedd o weithio anghyfreithlon a galluogi atafaelu cyflogau fel trafodion troseddau. Mae Gweinidogion yn addo ymgynghori ar gyflwyno lefi fisa newydd ar fusnesau sy'n recriwtio llafur o dramor i gyllido prentisiaethau ychwanegol ar gyfer gweithwyr o Brydain a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym hefyd yn rhagweld toriadau pellach mewn budd-daliadau i fewnfudwyr. Arweiniodd toriadau budd-dal tai y llynedd at benderfyniadau anodd i rai cymdeithasau tai am p'un ai a ddylent roi cartrefi i fewnfudwyr gan eu bod bellach yn methu cyflawni'r meini prawf ar fforddiadwyedd.

Gofynnir i gymdeithasau tai mewn rhai ardaloedd hefyd i wirio statws mewnfudo eu tenantiaid a rhagwelwn y bydd hyn yn parhau.

Bil Cymru

Bydd y bil hwn yn datganoli pwerau newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys meysydd o bolisi ynni a pholisi trafndiaeth. Bydd yn rhoi rheolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei enw, ei system etholiadol ac oedran pleidleisio. Fel canlyniad, rhoddir parhad i'r Cynulliad a bydd yn awr yn gweithio dan y model cadw pwerau.

Mae CHC yn croesawu'r newyddion y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn creu Bil Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau setliad cyfansoddiadol cryf a pharhaus i Gymru. Byddwn hefyd yn ailddatgan ein galwad am setliad cyllido tecach i Gymru.

Bil Tai

Ni fydd penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymestyn yr Hawl i Brynu i 1.3 miliwn o denantiaid cymdeithasau tai yn Lloegr yn cael effaith uniongyrchol yng Nghymru gan fod tai yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gallai fod rhai effeithiau anuniongyrchol. Gallai'r effaith ar gynlluniau busnes

Community Housing Cymru Group Members:

Aelodau Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

cymdeithasau tai yn Lloegr fod yn drychinebus a gall benthycwyr ymateb drwy gynyddu costau benthycyca yn gyffredinol. Bydd hyn unwaith eto yn effeithio ar y gallu i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Ers cyflwyno deddfwriaeth Hawl i Brynu yn 1980, cafodd 138,548 o gartrefi eu gwerthu a'u colli i'r sector rhent cymdeithasol yng Nghymru. Amcangyfrifir bod angen 14,200 o gartrefi'r flwyddyn yn ychwanegol yng Nghymru rhwng nawr a 2026 i liniaru pwysau ar dai.

Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y cynnig i ddileu'r Hawl i Brynu ac mae Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol 2009 eisoes yn galluogi cynghorau i wrthod ceisiadau Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle mae galw uchel am dai fforddiadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn y dyfodol agos.

Bil Undebau Llafur

Bydd y Bil Undebau Llafur yn creu mwy o rwystrau i weithwyr sector cyhoeddus cyn y gallant alw streic. Yn gyntaf, mae'n rhaid i fwy na 50% o aelodau undeb bleidleisio er mwyn i'r bleidlais fod yn ddilys. Yn ail, mae'n rhaid i o leiaf 40% o'r rhai â hawl i bleidleisio fod o blaid streic. Bydd terfyn amser newydd ar y bleidlais am weithredu diwydiannol ac addewid i fynd i'r afael â bygwth gweithwyr nad ydynt yn streicio, heb roi manylion sut y gwneid hynny. Dywedodd y Llywodraeth mai diben y bil oedd "sicrhau fod mandad democrataidd cyn ymyrryd ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol." Byddai'r bil hefyd yn gorfodi aelodau undebau llafur i optio mewn os dymunant dalu lefi gwleidyddol mewn symudiad a allai daro ar gyllid y Blaid Lafur.

3 Gwybodaeth bellach

Bydd CHC yn rhoi gwybodaeth bellach ar raglen ddeddfwriaethol y Deyrnas Unedig wrth i ddigwyddiadau ddatblygu.

Cartrefi Cymunedol Cymru Mehafin 2015

Community Housing Cymru Group Members:
Aelodau Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru: